

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2021.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Y Cynghorydd R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.J. Griffiths, N.P. Hodges, T.H. Jarvie, J.M. Norman, A.C. Parker, S.D. Perkes a N.C. Thomas.

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) ac I. Cramb (Fforwm Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau) a L. Burnett (Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio).

633 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, atgoffodd Swyddog Cynorthwyol y Gwasanaethau Democrataidd yr Aelodau o'r Pwyllgor o weithdrefnau 'Galw i Mewn y Cabinet' a 'Chais am Ystyriaeth mewn Pwyllgor Craffu' sydd ar waith gan y Cyngor ac o'r ffaith bod cyngor ac arweiniad pellach ar gael i'r Aelodau ar y ddwy weithdrefn drwy Dîm y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu.

634 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y H. Gapper (Addysg Gymraeg).

635 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – DYLLID cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

636 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

637 STRATEGAETH DDRAFFT HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 8 Tachwedd 2021 i'r Pwyllgor fel y nodwyd yn yr agenda.

Rhoddodd Atodiad A yr adroddiad asesiad o Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2017-22 ac atodwyd drafft o strategaeth pum mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 27 yn Atodiad B. Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar y dogfennau er mwyn llywio a chwblhau Strategaeth Hybu 2022-27 ac i lywio'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn cyflawni'r ymrwymadau ynddo.

Roedd Mr David Thomas, Ymgynghorydd Allanol, wedi cael cais i gynnal yr asesiad ac roedd yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn rhoi mwy o fanylion i'r Pwyllgor ynghylch cynnwys yr adroddiad a'r Strategaeth ddrafft.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad, dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod sylwadau wedi dod i law gan H. Gapper yn rhinwedd ei swydd yn Aelod Cyfetholedig dros Addysg Gymraeg. Roedd sylwadau Mr Gapper wedi'u dosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod ac fe'u darllenwyd ar goedd yn ystod y cyfarfod gan Swyddog Cynorthwyol y Gwasanaethau Democrataidd. Pwysleisiodd Mr. Gapper bwysigrwydd cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol er mwyn iddynt ei hystyried yn iaith y gallent ei defnyddio'n rhan o'u bywydau bob dydd yn hytrach na'n rhan o'u haddysg yn unig. Awgrymodd mai un dull fyddai ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n defnyddio rhannau o ystâd y Cyngor gynnig rhywfaint o'u darpariaeth yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, neu eu perswadio i wneud hynny.

Mewn ymateb i sylwadau Mr. Gapper, gwnaeth yr Aelodau o'r Pwyllgor nifer o sylwadau y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- Roedd annog defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliadau gwirfoddol yn syniad da mewn egwyddor, ond byddai gorfodi darpariaeth ddwyieithog yn ei gwneud yn anos fyth i sefydliadau ddod o hyd i arweinwyr addas ar gyfer y gweithgareddau hyn;
- Weithiau, nid oedd sefydliadau'n gwybod bod siaradwyr Cymraeg ymhlith eu haelodaeth ac roedd yn bosibl pe baent, gyda chymorth y Cyngor neu drwy arian grant, yn cynnal cyfrifiad o'r aelodau, efallai y byddant yn darganfod bod rhai o'r aelodau'n siaradwyr Cymraeg a fyddai'n barod i gynorthwyo gyda darpariaeth ddwyieithog. At hynny, gallai sefydlu presenoldeb siaradwyr Cymraeg o fewn sefydliad annog mwy o unigolion sy'n siarad Cymraeg i ymuno;
- Pe bai hynny'n cael ei bwysleisio o fewn y Strategaeth, byddai'n dangos i siaradwyr Cymraeg mai mater o bolisi a yrrir gan y llywodraeth oedd e i'r Cyngor gynyddu'r ddarpariaeth ddwyieithog neu Gymraeg mewn sefydliadau.

Diolchodd Mr. Thomas a'r Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes i'r Aelodau a Mr. Gapper am eu cyfraniadau, gan gydnabod y gallai'r awgrymiadau hyn arwain at weithredu ystyrlon ac, o safbwynt cydraddoldeb, y gallai cyfrifiad fel yr awgrymwyd daflu goleuni ar faterion iaith o fewn sefydliadau o ran ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg, er enghraifft iaith Arwyddion Prydain. Dywedodd y Swyddog y byddai

sylwadau'r Aelodau'n cael eu hadlewyrchu fel y bo'n briodol yn adrannau perthnasol o'r Cynllun Gweithredu.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodedig yn llawn,

ARGYMHELLWYD – DYLLID cymeradwyo'r Strategaeth Ddrafft Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg fel y'i atodir i'r cyfeirnod gan y Cabinet yn ddyddiedig 8fed Tachwedd, 2021 (Cofnod Rhif C720), gan ystyried y sylwadau a wnaed uchod.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Craffu wedi rhoi adborth cyn ystyried fersiwn ddrafft terfynol pellach o'r Strategaeth.

638 CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG DRAFFT 2022-23 (CYF) –

Roedd y Cabinet, ar 22 Tachwedd 2021 wedi cymeradwyo Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft 2021-22 ac wedi penderfynu y dylid cyfeirio'r adroddiad at bob Pwyllgor Craffu yn rhan o'r rhaglen ymgynghori.

Roedd y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2022-23 yn cyd-fynd â phedwar Amcan Lles y Cyngor ac yn nodi'r gweithgareddau a fyddai'n cael eu cynnal yn 2022-23 i gyflawni'r amcanion hynny. Byddai'r ymrwymïadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn cael eu hadlewyrchu mewn Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol ynghyd â thargedau gwella gwasanaethau a fyddai'n manylu ar sut y byddai gwahanol wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at gyflawni'r pedwar Amcan Lles.

Gwnaeth yr Aelodau wedyn, ar ôl ystyried y Cynllun drafft yn llawn

ARGYMHELLWYD – DYLLID cymeradwyo'r Cynllun Cyflenwi Blynyddol drafft fel y'i cynhwysir yn y cyfeirnod gan y Cabinet yn ddyddiedig 22ain Tachwedd, 2021 (Cofnod Rhif C742).

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Craffu wedi rhoi adborth ar y Cynllun drafft fel rhan o'r rhaglen ymgynghori.

639 CWRICWLWM I GYMRU: Y DAITH I 2022 – DIWEDDARIAD TYMOR YR HYDREF 2021 –

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Cwricwlwm yng Nghonsortïwm Canolbarth y De (CCD) y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed tuag at gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, a oedd i fod i gael ei gyflwyno mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir o fis Medi 2022. Rhoddodd y cyflwyniad wybod am ddiweddariadau i'r amserlen weithredu ac amlinellodd yr ystod o ddysgu a chymorth proffesiynol y mae CCD yn ei rhoi i bob ysgol ym Mro Morgannwg.

Yn dilyn hynny, gwahoddwyd aelodau cynrychioliadol o staff o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pendeulwyn ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i siarad gerbron y Pwyllgor, a rhoddodd pob ysgol gyflwyniad i'r Aelodau yn myfyrio ar ei thaith ei hun hyd yma wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

Yn dilyn y cyflwyniadau, diolchodd Prif Bartner Gwella CCD i'r cynrychiolwyr am eu gonestrwydd wrth gyfleu, drwy eu cyflwyniadau, nad oedd yn un daith hawdd i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Nododd y Cadeirydd ei bod yn braf gweld y cynnydd a oedd yn cael ei wneud a gofynnodd i sleidiau'r cyflwyniad gael eu dosbarthu i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Gyda chaniatâd i siarad, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio ei bod yn teimlo'n ffodus iawn o allu ymweld ag ysgolion Bro Morgannwg yn rhan o'i rôl, lle'r oedd wedi gweld gwaith aruthrol yn cael ei wneud ynghylch paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, a dywedodd fod hyn yn glod enfawr i'r staff mewn ysgolion ledled y Fro.

Gan nad oedd unrhyw ymholiadau neu gwestiynau pellach ar y pryd,

ARGYMHELLWYD – DYLLID dweud diolch i aelodau staff cynrychioliadol Ysgol Gynradd Pendoylan yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg am eu cyflwyniadau, a nodi cynnwys eu cyflwyniadau.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniadau a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

640 MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL, 2021 I 30 MEDI, 2021 A'R GYLLIDEB DDIWYGIEDIG AR GYFER 2021/22 (CDS) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg yr adroddiad a roddodd wybod i'r Pwyllgor am y cynnydd sy'n gysylltiedig â gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020. Roedd y sefyllfa refeniw ar gyfer 2021/22 yn heriol gyda'r pwysau gweithredol ac ariannol ychwanegol ar y gwasanaeth oherwydd pandemig COVID-19.

Roedd cyllideb 2021/22 wedi'i diwygio ar gyfer trosglwyddiadau mewnol, a nododd Atodiad 1 yr adroddiad y gyllideb ddiwygiedig ynghyd â'r addasiadau angenrheidiol i'w gwneud.

O ran refeniw, rhagwelwyd y gallai'r gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau orwario gan £106k erbyn diwedd y flwyddyn ac felly byddai angen ariannu hyn o gronfeydd wrth gefn y Gyfarwyddiaeth. Pennwyd targed arbedion ar gyfer y flwyddyn sef £59k a rhagwelwyd y byddai hyn yn cael ei gyflawni'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn, fel y nodir yn y datganiad yn Atodiad 2 yr adroddiad. Roedd y gyllideb gyfalaf gymeradwy gyfredol wedi'i phennu ar £38.36m, a nododd Atodiad 3 gynnydd ariannol manwl ar y Rhaglen Gyfalaf ar 30 Medi, 2021.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn,

ARGYMHELLWYD –

- (1) DYLID nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.
- (2) DYLID nodi'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2021/22.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

641 CYNIGION CYCHWYNNOL CYLLIDEB REFENIW 2022/23 (CDS) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg yr adroddiad a gyflwynodd ar gyfer ymgynghori y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb refeniw 2021/22. Roedd gofyn i'r Cyngor dan y statud osod lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23 erbyn 11 Mawrth 2022. Er mwyn cyflawni hyn byddai'n rhaid iddo gytuno ar gyllideb refeniw wedi ei mantoli erbyn y dyddiad hwnnw.

Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi setliad dros dro'r Cyngor eto. Fe'i disgwyliwyd eleni ar 21 Rhagfyr 2021 gyda'r setliad terfynol i'w gyhoeddi ar 1 Mawrth 2022. Felly nododd yr adroddiad sawl senario posibl.

Amlinellodd yr adroddiad bwysau cost a oedd yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor fel y'u nodwyd gan adrannau perthnasol. Cyfanswm y rhain oedd £4.4m ac fe'u nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad. Nodwyd cronfeydd wrth gefn yn Atodiad 3 yr adroddiad. Mewn perthynas â'r rheiny sy'n ymwneud â'r gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau roedd y mwyafrif wedi'u cadw ar gyfer gweithredu Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Ar ôl i'r Swyddog gyflwyno'r adroddiad, gwahoddodd y Cadeirydd yr aelod o'r cyhoedd a oedd wedi cofrestru i siarad gerbron Pwyllgor i wneud felly. Roedd Dr V. Browne yn siarad fel Cadeirydd Fforwm Cyllideb Ysgolion y Fro a gellid crynhoi ei sylwadau fel a ganlyn:

- Cydnabu'r Fforwm y gefnogaeth gref a gafwyd gan yr Awdurdod Lleol a oedd mewn sefyllfa anodd;
- Roedd nifer o ysgolion yn y Fro yn cario balansau mawr ymlaen a gellid egluro bod hynny oherwydd yr arian grant ychwanegol a dderbyniwyd yn bennaf oherwydd COVID-19, a thanwariant yn ymwneud â ffioedd arholiadau ac athrawon cyflenwi;
- O ran arian gan Lywodraeth Cymru, Bro Morgannwg oedd yr Awdurdod Lleol i gael y swm lleiaf o arian fesul disgybl;
- Roedd nifer o faterion canolog yn rhoi pwysau ar y gyllideb, er enghraifft gwaith yn cael ei wneud ynghylch darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a chynyddu nifer y disgyblion;
- Dangosodd data meintiol fod y pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar y garfan bresennol mewn ysgolion, yn enwedig o ran materion emosiynol, llythrennedd a rhifedd;

- Roedd y Fforwm am bwysleisio, er ei fod yn deall yr anawsterau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu wrth bennu ei gyllideb, y byddai pob punt a ddyrennir i ysgolion yn cael ei defnyddio yn y ffordd orau bosibl i gefnogi pobl ifanc.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Perkes, cadarnhaodd Dr. Browne fod nifer o ysgolion wedi cynyddu eu darpariaeth y tu allan i oriau yn sylweddol er mwyn ceisio cynorthwyo disgyblion i fynd yn ôl ar y trywydd iawn yn dilyn y pandemig, ac roedd Ysgol Uwchradd Pencoedtre yn cymryd rhan mewn cynllun peilot gan Lywodraeth Cymru oedd yn ystyried effaith estyn y diwrnod ysgol.

Gyda chaniatâd i siarad, roedd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio am siarad gerbron y Pwyllgor a gellid crynhoi ei phwyntiau fel a ganlyn:

- Ar hyn o bryd, roedd £114m wedi'i ddyrannu i Addysg, gyda £98m o hyn yn mynd i ysgolion, a oedd yn cyfateb i ddirprwyaeth uniongyrchol o 40% o gyllideb y Cyngor, ffigur llawer mwy nag un gwasanaethau eraill, er enghraifft y Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Disgyblion Bro Morgannwg oedd yn cael y swm lleiaf o arian, ond nid oedd yr Awdurdod Lleol wedi gosod ei Dreth Gyngor ar lefel gyfartalog Cymru a byddai hyn bob amser yn effeithio ar y gyllideb;
- Nodwyd mwy na £4m o bwysau cost yn Addysg ac roedd pob un yn hanfodol, gyda llawer yn canolbwyntio ar faterion ADY;
- Roedd mantol'r gyllideb yn dasg anodd, ond roedd y Cyngor bob amser wedi bod yn uchelgeisiol ac yn arloesol, am fesur ei hun nid yn unig yn ôl safonau Cymru ond yn unol â'r rheiny a osodwyd ledled y Deyrnas Unedig.

Roedd y Cynghorydd N.C. Thomas am ailadrodd pryderon yr oedd wedi'u mynegi yn y cyfarfod blaenorol ynghylch pwysigrwydd y Gwasanaeth Ieuenctid, a gofynnodd i'r Pwyllgor argymhell ystyried pwysau costau i'r Cabinet ar ran y gwasanaeth. Nododd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg a'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau nad oedd y Gwasanaeth Ieuenctid wedi'i restru'n un sy'n achosi pwysau cost (gan ei fod yn dal i gael arian ar hyn o bryd), a gofynnodd am eglurhad ynghylch a oedd y Cynghorydd yn dymuno i'r Pwyllgor ofyn am arian ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth. Ategodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, gyda chaniatâd i siarad, bwyntiau'r Swyddogion, gan ychwanegu na fyddai'n bosibl ariannu'r holl bwysau cost ar draws y Cyngor sy'n dod i £27m, ac felly na fyddai'n ddoeth ychwanegu pwysau cost ychwanegol yn ddiangen. Ychwanegodd y gellid ymgorffori pwysau cost ychwanegol yn ystod y flwyddyn pe bai angen, a'i fod am sicrhau i'r Aelodau bod y cwestiwn o ran arian ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid wedi'i ofyn, a bod y Cabinet yn deall yr angen i ddiogelu lefel bresennol o arian y gwasanaeth (fel yr awgrymwyd gan y Swyddogion).

Ar ôl i'r Aelodau ystyried yr adroddiad yn llawn,

ARGYMHELLWYD – DYLLID nodi'r Cynigion Cyllideb Refeniw Cychwynnol ar gyfer 2022/23.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

642 CYNIGION RHAGLEN GYFALAF CYCHWYNNOL 2022/23 I 2026/27 (CDS) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg yr adroddiad a gyflwynodd y cynigion cychwynnol ar Raglen Gyfalaf 2022/23 i 2026/27 i'r Pwyllgor Craffu i ymgynghori arnynt. Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Arian Cyfalaf Cyffredinol Dros Dro ar gyfer 2022/23 hyd yma ond roedd disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ar 21 Rhagfyr 2021 gyda'r Setliad Terfynol i'w gyhoeddi ar 1 Mawrth 2022. Tybiwyd mai £6.867m fyddai'r Arian Cyfalaf Cyffredinol ar gyfer 2022/23, sy'n cynnwys £3.438m o Grant Cyfalaf Cyffredinol a £3.429m o Fenthycâ â Chymorth.

Nododd Atodiad 1 yr adroddiad y Cynigion Cychwynnol ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y Pwyllgor rhwng 2022/23 a 2026/27 fel y'u cymeradwywyd ar 10 Mawrth, 2021, gan gynnwys unrhyw gymeradwyaethau dilynol. Dangoswyd rhestr o'r ceisiadau cyfalaf a dderbyniwyd ar gyfer y Gyfarwyddiaeth yn Atodiad 2 yr adroddiad, er oherwydd yr ansicrwydd yn lefel yr arian a fyddai'n cael ei roi, ni fyddai unrhyw gynlluniau'n cael eu cymeradwyo i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf a byddai'r Gweithgor Cyllideb yn cynnal asesiad pellach pan fo lefel yr arian yn hysbys ac ar ôl i ymgynghoriad gael ei gynnal.

Gyda chaniatâd i siarad, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod Ysgol Uwchradd Pencoedtre i fod i gael ei throsglwyddo ar amser ac y byddai'r safle newydd yn agor yn y flwyddyn newydd. Dywedodd fod rhaglenni Band B yn mynd rhagddynt yn dda, ar amser ac o fewn y gyllideb.

Gan nad oedd unrhyw ymholiadau neu gwestiynau pellach ar y pryd,

ARGYMHELLWYD – DYLLID nodi'r Cynigion Rhaglen Gyfalaf Cychwynnol ar gyfer 2022/23 i 2026/27.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

643 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 2 2021/22 (CDS) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod am gynnydd y Cyngor yn Chwarter 2 (Ch2) (1 Ebrill, 2021 i 30 Medi, 2021) tuag at gyflawni ymrwymadau ei Gynllun Cyflawni Blynnyddol (CCB) (2021/22) yn unol ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol.

Roedd Atodiad A yr adroddiad yn rhoi crynodeb o sut roedd y Cyngor yn perfformio yn erbyn pob un o'i Amcanion Lles a oedd yn benodol i gylich gwaith y Pwyllgor. Cyflwynwyd eithriadau perfformiad o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn Atodiad B yr adroddiad, a rhoddwyd sylwadau manwl ar berfformiad ar gyfer yr holl gamau gweithredu a mesurau yn Atodiad C.

Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ei ymrwymadau yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'i CCB. Roedd y perfformiad hwn wedi cyfrannu at statws Gwyrdd cyffredinol ar gyfer y Cynllun yn Ch2.

Gellir crynhoi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y 53 cam gweithredu a'r 5 mesur chwarterol a oedd yn benodol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant fel a ganlyn:

- GWYRDD: 50 cam gweithredu (94%) a 3 mesur (60%).
- MELYN: 2 gam gweithredu (4%) a 0 mesur.
- COCH: 1 cam gweithredu (2%) a 2 fesur (40%).

Nodwyd bod effaith COVID-19 wedi cyfrannu at y cam gweithredu a'r 2 fesur y prïodolwyd statws perfformiad Coch iddynt.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau gyflwyniad i'r Pwyllgor a dynnodd sylw at gyflawniadau allweddol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â meysydd i'w gwella. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd am gynnydd o ran adfer ar ôl y coronafeirws gyda'r cyflwyniad yn tynnu sylw at faterion sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, roedd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau am egluro i'r Pwyllgor nad oedd y ffigurau yn yr adroddiad yn ymwneud ag ymweliadau llyfrgell yn cynnwys y gwaith clicio a chasglu ac ar-lein a wnaed yn ystod y cyfnod hwn.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn,

ARGYMHELLWYD –

(1) DYLID nodi'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymïadau Cynllun Cyflenwi Blyneddol 2021/22 fel y maent wedi'u halinio ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) DYLID nodi'r camau adferol i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(3) DYLID nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud trwy Strategaeth Adfer y Cyngor a Chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i'r pandemig Coronafirws parhaus.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1,2&3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.